

PALASU HWY

HYGYRCHEDD



SICRHAU BOD PAWB YN CAEL EI GYNNWYS YN EICH PALAS HWYL

Siaradwch â phobl. Cysylltwch â changhennau lleol Scope, Mencap, Age UK, MIND, Connect the Elderly, a'r rhai sy'n rhedeg gweithgareddau neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau o'ch cwmpas chi. Os ydych yn abl eich corff, siaradwch â phobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd, pobl anabl, pobl fyddar/Fyddar am gyfrannu fel Crewyr yn ogystal â chymryd rhan.

Byddwch yn radicalaidd o hygyrch – rhowch sylw i gynwysoldeb o'r cychwyn cyntaf - crëwch waith a gweithgareddau y gall pobl eraill gymryd rhan ynddynt. A allech chi ofyn i fyfyrwr BSL lleol ddehongli i chi ar y diwrnod? A allent ddysgu pobl eraill yn eich Palas Hwyl i arwyddo pethau syml? Allwch chi ddod o hyd i rywun a allai godi pobl yn yr ardal leol y byddent yn cael defnyddio cludiant cyhoeddus yn anodd? Rhagweithiol a radicalaidd o hygyrch:

- Ydych chi wedi ystyried creu gwaith dros a gyda grwpiau penodol, neu ei drosglwyddo i'r grwpiau hynny ei greu dros bobl eraill? E.e. gall gemau hel atgofion, gweithgareddau garddio a cherddoriaeth fod yn [eithriadol o fuddiol i bobl sydd â dementia](#).
- Mae blog gwych gennym gan Annie Bannister am [greu gardd synhwyaidd](#)
- Mae gan Mencap ganllaw da ar [gyfathrebu â phobl sydd ag anabledd dysgu](#)
- Ysgrifennodd Age UK blog gwych i ni ['Pump Awgrymiad Gwych ar greu Palas Hwyl Gyda a Thros Bobl Hŷn'](#)
- Mae gan Voluntary Arts rai adnoddau gwych hefyd gan gynnwys [Rhestr Wirio Digwyddiadau: anableddau a mynediad](#) a [Chrosawu pobl sydd ag anableddau dysgu](#)

Un peth sy'n hawdd ei addasu yw eich deunyddiau printiedig – o arwyddion i nodiadau rhaglen, yn aml maent yn rhy eiriog ac yn defnyddio ffont bychan. Meddylwch am ble mae arwyddion yn cael eu gosod, math a maint y ffont mewn taflenni a chynhyrchu fersiwn print bras ar gyfer y rhai y maent yn ei ffafrio neu y mae ei angen arnynt. Dyma [ganllaw byr gan yr Ymddiriedolaeth Synhwyaidd ar fathau o ffontiau a meintiau yma](#) a rhai adnoddau gwych [yma gan y Gymdeithas Dylunio Arwyddion](#)

Mae yna **safonau y dylai gwefannau eu dilyn**, [wedi'u crynhoi'n ddeheuig yma](#) gan Brifysgol South Bank a gall pethau bychain wneud gwahaniaeth mawr – fel ychwanegu disgrifiadau at [daqiau 'alt' delweddau allweddol](#) fel y gall darllenwyr sgrîn eu disgrifio.



Os ydych yn cynhyrchu cynnwys fideo ac yn ei uwchlwytho, mae gan **YouTube nodwedd isdeitlau syml** sy'n golygu y gallwch roi isdeitlau ar bopeth rydych yn ei uwchlwytho - ceir [cyfarwyddiadau clir iawn yma](#).

Ceisiwch fod yn eglur ynghylch pa mor hygyrch y mae eich lleoliad: gwiriwch yr hanfodion; toiledau hygyrch, coridorau eang, goleuo da, arwyddion clir, byrddau y gall cadeiriau olwyn gyda chynalyddion breichiau ffitio oddi tanynt, seddau i'r rhai na allant sefyll am amser hir. A oes system dolen glyw? Mynediad ar ramp? A allech chi hurio ramp neu system dolen glyw ar gyfer pobl sydd â chymhorthion clywed, neu ofyn i ddarparwr dolenni clyw neu rampiau roddi system/ramp ar gyfer diwrnod y Palas Hwyl?

Meddylwch yn weithredol am sut mae pobl eraill yn cyrchu eich gweithgareddau, adeilad, deunyddiau printiedig ac ar-lein: bydd ychydig o feddwl ac amser gennych chi'n gwneud gwahaniaeth enfawr i rywun arall. Cofiwch ddirprwyo os gallwch - dewch o hyd i rywun sydd ag amser i ymgymryd â'r un dasg yma, gofynnwch o gwmpas i weld a oes unrhyw therapyddion galwedigaethol, neu athrawon sy'n arbenigo mewn anghenion arbennig, neu weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn eich rhwydweithiau a fydd eisoes yn gwybod am y materion, y maent efallai yn barod i helpu.

Uwchlaw popeth, cofiwch mai nod Palasau Hwyl yw creu gyda yn hytrach nag ar gyfer.